Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar y gweithlu addysg

Gorffennaf 2026

1 **Crynodeb gweithredol:** Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar y gweithlu addysg

1.1 **Pwrpas:** Mae'r nodyn cyngor hwn yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar y camau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog, ac er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

1.2 **Yr her strategol:** Nid yw'r gweithlu addysg presennol yng Nghymru â'r capasiti i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar y raddfa fydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Nid ydym o'r farn fod strategaeth ddigon uchelgeisiol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer cau'r bwlch hwn.

1.3 **Risg:** Heb ymyrraeth bellach fe fydd diffyg gweithlu addysg dwyieithog yn llesteirio twf addysg cyfrwng Cymraeg ac yn tanseilio cyflawniad y Ddeddf ac uchelgais ehangach Cymraeg 2050.

1.4 **Y datrysiad sy'n cael ei gynnig:** sefydlu fframwaith o ddisgwyliadau hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer athrawon fel elfen statudol a gorfodol o lwybr gyrfa athrawon. Bydd y fframwaith yn:

- Gosod disgwyliadau a deilliannau ieithyddol clir i athrawon y dyfodol gan fapio'r broses o symud y gweithlu addysg ar hyd continwwm iaith yn unol ag amserlen Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob athro ddilyn llwybr hyfforddiant iaith Gymraeg drwy gydol eu gyrfa. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei gynllunio a'i ddarparu ar sail deilliannau ieithyddol clir, ac yn gwahaniaethu ar sail gallu ieithyddol ar bwynt cychwyn, ac ar sail cyfrwng addysgu tebygol.
- Ehangu'n sylweddol a safoni hyfforddiant iaith Gymraeg ar draws holl gyrsiau AGA yng Nghymru. Byddai cwricwlwm cenedlaethol yn disodli'r gofynion amwys presennol, ac yn cael ei sefydlu drwy feini prawf achredu rhaglenni AGA yng Nghymru.
- Integreiddio hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan orfodol o gyfnod sefydlu athrawon newydd. Byddai'r fframwaith yn gosod disgwyliadau clir ac yn rhan greiddiol o'r pecyn cefnogaeth a mentora sydd yn cael ei ddarparu i athrawon newydd.
- Ymgorffori datblygu sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, gan ddarparu cynnig cenedlaethol cydlynol sy'n cefnogi dilyniant a datblygiad pob athro.
- Cynnwys hyfforddiant ar addysgeg addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion o wahanol gyfrwng iaith, gan sicrhau fod gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ddealltwriaeth briodol o sut i ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg disgyblion.

- Sicrhau bod Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn datblygu arweinwyr sydd â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau strategol ar gyfer symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol.
- Yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno drwy broses gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Dysgu, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr AGA, awdurdodau lleol ac ysgolion.

1.5 Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

- Cytuno mewn egwyddor i sefydlu fframwaith o ddisgwyliadau hyfforddiant iaith Gymraeg statudol ar gyfer athrawon.
- Fel rhan o ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg fydd yn cael ei lunio yn unol â gofynion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 dylid:
  - Ystyried sut gellid defnyddio'r cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg er mwyn diffinio'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar gyfer athrawon, a hynny mewn perthynas â chyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Dylai hyn gynnwys sut bydd y disgwyliadau hyn yn amrywio yn ôl cyfrwng iaith addysg ac yn cael eu codi'n raddol dros gyfnod o amser.
  - Datblygu cynigion ar gyfer sefydlu cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg cenedlaethol fyddai'n cyfateb i'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar gyfer athrawon. Dylai'r cwricwlwm bennu llwybr hyfforddiant iaith Gymraeg safonol a chydlynol ar gyfer pob athro, gan gwmpasu cyfnod AGA, cyfnod sefydlu athrawon, a datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai'r cwricwlwm sicrhau fod cefnogaeth addas ar gael i bob athro ddatblygu'r sgiliau iaith Gymraeg fydd eu hangen arnynt.
  - Datblygu cynigion ar gyfer ymgorffori'r cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan orfodol a statudol o hyfforddi, sefydlu, a datblygu fel athro yng Nghymru.
- Ystyried pa newidiadau polisi a deddfwriaethol pellach y byddai eu hangen er mwyn ymgorffori'r cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg ar draws AGA, cyfnod sefydlu athrawon newydd, a'r gyfundrefn datblygu proffesiynol parhaus.

2 **Y cyngor llawn:** sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg statudol ar gyfer athrawon, sy'n elfen orfodol o lwybr gyrfa athrawon

2.1 Mae adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd arnaf i gynnig cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd neu sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. O dan y ddarpariaeth hon rwy'n cyflwyno'r nodyn cyngor hwn i egluro'r camau rwyf yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gwrdd â gweledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

3 Ein gweledigaeth

3.1 Yn unol â gweledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 rydym am weld pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. I gyflawni bydd gofyn trawsnewid y sector addysg yng Nghymru, gan sefydlu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a symud holl ysgolion Cymru ar hyd continwwm ieithyddol. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth uchelgeisiol hon bydd rhaid sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Rydym yn rhagweld dyfodol lle bydd gan bob athro yng Nghymru sgiliau iaith Gymraeg a dealltwriaeth briodol o addysgeg addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion o wahanol gyfrwng iaith, a fydd yn eu galluogi i gefnogi pob dysgwr i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn golygu integreiddio datblygu sgiliau yn y Gymraeg i bob cam o yrfa athro: o addysg gychwynnol athrawon, i gyfnod sefydlu, ac i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

3.3 Y weledigaeth yw y bydd pob athro yn y dyfodol yn dilyn llwybr hyfforddiant iaith Gymraeg cenedlaethol a statudol. Y canlyniad yn y pendraw fyddai cyflenwad cynyddol o addysgwyr dwyieithog a fydd yn creu cenedlaethau newydd o siaradwyr Cymraeg hyderus.


3.4 Mae gan Lywodraeth newydd Cymru'r cyfle – a'r cyfrifoldeb – i arwain y datblygiadau hyn a sefydlu model hyfforddiant iaith y gellid ei efelychu ar draws y gyfundrefn addysg, gan gynnwys yn y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg bellach ac uwch, ac ar gyfer pob gweithiwr addysg proffesiynol.

4 Y sefyllfa bresennol

4.1 **Diffyg athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:** Er gwaethaf uchelgais polisi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, nid oes gan weithlu addysg presennol Cymru y capasiti i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar y raddfa sydd ei hangen.

4.2 Ar hyn o bryd tua 30% o athrawon Cymru sy'n nodi eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg[1]. Fel y dengys y tabl isod, mae'r niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd wedi lleihau rhywfaint dros y degawd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod mae'r niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd wedi cynyddu rhywfaint. Er hynny, mae'r niferoedd yn sylweddol is na'r targedau sydd wedi'u gosod.

Niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion



4.3 Er gwaethaf ymdrechion sylweddol i recriwtio siaradwyr Cymraeg i hyfforddi fel athrawon drwy wahanol grantiau mae'n amlwg bod bwlch sylweddol rhwng niferoedd yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r targedau sydd wedi'u gosod. Bydd angen ymyrraeth sylweddol i gau'r bwlch hwn ac i sicrhau bod digon o athrawon ar hyd a lled Cymru fydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau cyfleoedd i bob plentyn yng Nghymru ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus.

4.4 Nid oes digon o hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) nac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon: Ar hyn o bryd mae disgwyl i gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru gynnwys 35 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae tystiolaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn nodi bod un lefel gyflawn o ddysgu iaith yn cymryd 120 awr, ac felly nad yw 35 awr yn ddigon i allu dilyn continwwm iaith a datblygu'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol.

[1] Yn ôl data y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, Llywodraeth Cymru

4.5 Ar ôl cwblhau cwrs AGA nid oes ar hyn o bryd ofyniad statudol ar athrawon i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod hyfforddiant iaith Gymraeg i athrawon ar gael ac wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y gweithlu addysg (boed hynny ar gyrsiau byr neu sabothol). Er bod datblygu gallu yn y Gymraeg yn rhan o'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon, nid oes fframwaith gorfodol ar hyn o bryd i sicrhau bod pob addysgwr yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl cymhwyso. Mae hyn yn golygu bod unrhyw hyfforddiant pellach i bob pwrpas yn wirfoddol neu yn dibynnu ar raglenni ysgolion neu awdurdodau lleol penodol.

4.6 **Mae hyfforddiant iaith Gymraeg yn wirfoddol ac nid yw'n ofynnol fel rhan o strategaeth gydlynol ac uchelgeisiol:** Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol eisoes wedi datblygu Rhaglen Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu Addysg. Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant amrywiol a hyblyg i athrawon a chymorthyddion dosbarth ac yn cynnwys cyrsiau sabothol a lleoli tiwtoriaid mewn ysgolion sydd wedi ymrwymo i newid categori iaith.

4.7 Er bod y datblygiadau uchod yn hynod gadarnhaol mae ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ar hyn o bryd yn wirfoddol. Er bod y cwricwlwm wedi'i gynllunio a bod yr hyfforddiant ar gael, nid oes mecanwaith i sicrhau bod digon o athrawon yn ymgymryd â'r hyfforddiant, nac ychwaith bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu'n strategol fel rhan o gynlluniau i symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol.

4.8 Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Bydd y corff newydd hwn yn adeiladu ar waith y Ganolfan ac yn gyfrifol am sicrhau cynllunio cenedlaethol i gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg. Rhan ganolog o gyfrifoldebau'r Athrofa fydd parhau i ddatblygu ymhellach gwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu addysg. Datblygiad arall arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf oedd sefydlu Dysgu fel y corff cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth ar gyfer ysgolion. Mae gan Dysgu gyfrifoldeb dros ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

4.9 Does dim amheuaeth fod y datblygiadau uchod yn gamau pwysig ymlaen. Er hyn, nid ydynt yn ateb y cwestiwn hanfodol o sut mae sicrhau bod athrawon yn dilyn hyfforddiant iaith Gymraeg a dysgu proffesiynol ar raddfa sy'n cyd-fynd â'r gofyn fydd arnynt fel rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Bydd gan yr Athrofa y gallu i ddylunio'r cwricwlwm ac i annog cyfranogiad, ond ni all orfodi pob darparwr AGA neu ysgol i ymgorffori'r hyfforddiant iaith Gymraeg fel elfen ganolog o hyfforddi fel athro, ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

4.10 **Diffyg eglurder a thryloywder yn arwain at bryder ymysg gweithlu'r presennol a'r dyfodol:** Mae'r gweithlu addysg yn ymwybodol bod newidiadau ar droed ac y bydd gofyn cynyddol i athrawon allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes eglurder ynghylch y llwybr ar gyfer symud y gweithlu addysg ar hyd continwwm ieithyddol, nac ychwaith ddigon o sicrwydd yn cael ei ddarparu i

athrawon y bydd cefnogaeth ac hyfforddiant priodol ar gael i bawb, waeth beth fo'u sgiliau ieithyddol ar hyn o bryd, neu ar bwynt cychwyn hyfforddi fel athro.

4.11 Tystiolaeth bod angen ymyraethau gwahanol a mwy beiddgar: Heb ymyrraeth bellach mae perygl y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder gofalwyr, athrawon a darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg. Mae angen ymyrraeth fwy uchelgeisiol a sylweddol os ydym am sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog fydd ei angen er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

5 **Ein cynnig:** ymgorffori fframwaith o ddisgwyliadau hyfforddiant iaith Gymraeg cenedlaethol fel rhan orfodol o lwybr gyrfa athrawon

5.1 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau uchod, yn ogystal â chanolbwyntio ar recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg fel athrawon, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru sefydlu fframwaith o ddisgwyliadau hyfforddiant iaith Gymraeg statudol ar gyfer athrawon. Byddai'r fframwaith yn sicrhau bod pob athro yn y dyfodol yn gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn raddol ac yn derbyn hyfforddiant ar addysgeg addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion o wahanol gyfrwng iaith. Bydd y fframwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at wireddu uchelgais Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

5.2 Mae'r sylfeini ar gyfer datblygu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg o'r fath eisoes yn bodoli yn sgil gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Mae angen adeiladu ar hyn a grymuso gwaith yr Athrofa, Dysgu a phartneriaid allweddol eraill drwy ddatblygu fframwaith cydlynol a strategol ar gyfer cyflawni'r newid sydd ei angen.

5.3 Mae eisoes ddyletswydd ar Weinidogion Cymru drwy adran 25 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i nodi yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg y camau y byddant yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg. Isod rydym yn amlinellu'r math o gamau y gallesid eu cynnwys yn y fframwaith er mwyn sicrhau bod ymarferwyr addysg yng Nghymru â'r sgiliau priodol er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

5.4 Yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar ddarpariaethau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 mae hefyd angen ystyried yr angen i ymgorffori hyfforddiant iaith Gymraeg o fewn polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag AGA, cyfnod sefydlu athrawon, a datblygiad proffesiynol parhaus.

5.5 Rydym yn argymell bod y llwybr hyfforddiant wedi'i blethu drwy dri chyfnod allweddol yng ngyrfa athrawon, sef AGA, y cyfnod sefydlu, a datblygiad proffesiynol parhaus.

Cyfnod AGA: Ehangu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyrsiau AGA

Beth	• Darparu cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg ac addysgeg y Gymraeg penodol a safonol i bob athro dan hyfforddiant • Cynyddu'n sylweddol y gofyniad presennol o 35 awr o hyfforddiant iaith, a mwy o ffocws ar ddulliau addysgu'r Gymraeg sy'n cwrdd â'r angen er mwyn medru dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion o wahanol gyfrwng iaith. • Hyfforddiant iaith yn cael ei gynllunio ar sail deilliannau ieithyddol clir. • Pecyn hyfforddiant sy'n gwahaniaethu hyfforddeion ar sail gallu ieithyddol ar bwynt cychwyn, ac ar sail cyfrwng addysgu tebygol.
Sut	• Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg yn ei gwneud yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth meini prawf achredu cyrsiau AGA bod pob darparwr AGA yn darparu hyfforddiant iaith yn unol â chwricwlwm cenedlaethol a safonol.[2] • Yr Athrofa i ddatblygu cwricwlwm a chynnwys addas ar gyfer hyfforddeion gwahanol, a darparu canllawiau ac adnoddau i ddarparwyr. Dylai'r cwricwlwm hwn gael ei ddatblygu ar sail 'Cod disgrifio gallu yn y Gymraeg' fydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, ac fe ddylai bontio'n effeithiol â hyfforddiant pellach fydd yn cael ei gynnig drwy gydol gyrfa athrawon. • Yr Athrofa, Dysgu, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Darparwyr AGA i gydweithio er mwyn gweithredu ac ymgorffori'r cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyrsiau AGA.

Cyfnod sefydlu athrawon newydd gymhwyso: Integreiddio hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o gyfnod sefydlu athrawon newydd gymhwyso

Beth	• Gosod disgwyliadau clir i athrawon ddatblygu eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod sefydlu. • Darparu cefnogaeth i sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn derbyn hyfforddiant ieithyddol priodol ac hyfforddiant ar addysgeg y Gymraeg yn unol â chwricwlwm cenedlaethol a safonol. • Byddai'r hyfforddiant pellach hwn yn adeiladu ar hyfforddiant yn ystod cwrs AGA, yn cael ei deilwra i garfanau o hyfforddeion gwahanol, ac yn hwyluso proses o symud athrawon ar hyd continwwm ieithyddol yn ogystal â

[2] Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017, Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

	datblygu eu dealltwriaeth ymarferol o ddulliau addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion o wahanol gyfrwng iaith. • Byddai'r hyfforddiant hwn yn rhan greiddiol o'r pecyn cefnogaeth a mentora sydd yn cael ei ddarparu i athrawon newydd.
Sut	• Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'r Cyngor Gweithlu Addysg i ddiwygio'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n gosod gofynion cyfnod sefydlu athrawon newydd gymhwyso.[3] • Yr Athrofa i ddatblygu cwricwlwm hyfforddiant iaith priodol ar gyfer hyfforddeion sy'n adeiladu ar gyfnod AGA. • Yr Athrofa i gydweithio â Dysgu, y Cyngor Gweithlu Addysg, awdurdodau lleol ac ysgolion i ymgorffori hyfforddiant iaith Gymraeg i gyfnod sefydlu pob athro newydd gymhwyso – a hynny fel rhan o'r Llwybr Gyrfa Cynnar strwythuredig i gefnogi athrawon yn ystod 3-4 blynedd gyntaf o addysgu.

Datblygiad proffesiynol parhaus: Ymgorffori datblygu sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon

Beth	• Hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg yn rhan greiddiol o raglenni datblygu proffesiynol athrawon yng Nghymru. • Cyfleoedd amrywiol a chydlynol i athrawon gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg a datblygu eu gallu i addysgu'r Gymraeg yn ystod eu gyrfa. • Disgwyliadau clir a chadarn sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon ac arweinwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gydol eu gyrfa. • Sicrhau bod y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn datblygu arweinwyr sydd â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau strategol ar gyfer symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol.
Sut	• Llywodraeth Cymru i gydweithio â'r Cyngor Gweithlu Addysg i gryfhau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Dylid gosod disgwyliadau clir a chadarn i athrawon dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. • Yr Athrofa i ddatblygu cwricwlwm hyfforddiant iaith priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon sy'n adeiladu ar gyfnod AGA a chyfnod sefydlu athrawon.

[3] Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015, Canllawiau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru, Safonau Proffesiynol Athrawon Cymru

	• Yr Athrofa i gydweithio â Dysgu, awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn datblygu cynnig eang, cydlynol a deniadol i athrawon ar gyfnodau gwahanol gyrfa, ac mewn sectorau gwahanol. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cyd-fynd ag anghenion ysgolion (fel yr amlinellir mewn cynlluniau cyflawni ysgolion) ac anghenion awdurdodau lleol (fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg). • Ystyried y posibilrwydd o alinio rheoli perfformiad a datblygiad gyrfa â thystiolaeth o ddatblygu a gwella sgiliau iaith Gymraeg.[4] • Cyngor y Gweithlu Addysg, yr Athrofa, Dysgu, ac awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn ymgorffori'r Gymraeg i mewn i lwybrau arweinyddiaeth yng Nghymru.

5.6 Yr hyn sy'n ganolog i'r weledigaeth uchod yw bod Llywodraeth Cymru yn pennu'n glir y math o ddeilliannau ieithyddol y disgwylir i athrawon eu cyrraedd yn ystod eu gyrfa, ac yn sicrhau bod athrawon yn derbyn yr hyfforddiant ieithyddol priodol hwn er mwyn cyflawni'r deilliannau hyn. Mae cyfle euraid yn sgil y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg i gyflwyno strategaeth uchelgeisiol a phellgyrhaeddol ar gyfer symud gweithlu addysg Cymru ar hyd continwwm ieithyddol.

5.7 Er mai'r weledigaeth yn y pendraw yw y bydd pob athro yng Nghymru yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mae'n bwysig nodi y gellir gweithredu'r weledigaeth hon yn raddol. Byddai modd codi lefel y disgwyliadau ar wahanol garfannau o hyfforddeion yn raddol dros gyfnod o amser. Dylid cynllunio'r broses o gynyddu'r disgwyliadau hyn yn ofalus, gan osod taflwybr clir i symud y gweithlu addysg, ac felly hefyd ysgolion a disgyblion, ar hyd continwwm ieithyddol yn unol ag amserlen ddisgwyliedig Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

5.8 Mae hefyd yn hanfodol bod y broses o symud y gweithlu addysg ar hyd continwwm ieithyddol yn gwbl gynhwysol ac yn darparu cyfleoedd, amser a chefnogaeth i bob athro, waeth beth fo'u sgiliau Cymraeg cyfredol, er mwyn cyfrannu at wireddu gweledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

[4] Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025, Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025/26 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol.